
# Siwrne Gyrfaoedd Myfyrwyr




Swansea University
Prifysgol Abertawe
Faculty of Humanities and Social Sciences
Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

Ysgrifennwyd a Lluniwyd gan Emma Evans ac Anya Rajan




**DECHREUWCH YMA**

Gall dechrau yn y brifysgol fod yn amser cyffrous a heriol. Cynifer o bobl newydd i gwrdd â nhw a heriau newydd i fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys darganfod mwy amdanoch chi eich hun.

Mae’r brifysgol yn cynnig cynifer o weithgareddau eraill i ymgolli ynddynt ar wahân i’r ochr academaidd. Rydyn ni yn y Tîm Cyflogadwyedd wedi creu cynllun i helpu i'ch tywys ar eich llwybr gyrfa ... efallai na fydd hyn ar frig eich rhestr ar hyn o bryd, ond mae'n amser da i ddechrau rhoi syniadau ar waith oherwydd gall y blynyddoedd hedfan.

Tra byddwch chi yn y brifysgol, mae'n bosib y byddwch yn dod ar draws pethau nad oeddech chi'n gwybod eu bod o ddiddordeb i chi, neu gallech chi newid eich meddwl yn gyfan gwbl am y llwybr gyrfa roeddech chi'n meddwl ei fod yn berffaith i chi. Rydyn ni yma i helpu, felly ymlaciwch, gwnewch baned a rhowch gipolwg ar ein hawgrymiadau!

# MYFYRIWCH DRWY GYDOL Y FLWYDDYN!

Mae'n syniad da neilltuo amser i fyfyrio am yr hyn rydych yn ei ddarganfod - amdanoch chi eich hun, eich diddordebau a sut gallent newid neu ddatblygu.

Meddyliwch am y pethau rydych chi'n eu mwynhau am y brifysgol hyd yn hyn, y pynciau sydd wedi bod fwyaf diddorol a lle rydych chi wedi gwneud eich gwaith gorau. Beth yw goblygiadau'r hyn rydych chi'n ei ddysgu? Gofynnwch gwestiynau fel y rhai canlynol i chi'ch hun ...

Beth yw'r pynciau rwy'n disgleirio ynddynt?

Pa achosion sy'n tanio fy mrwdfrydedd?


Beth rwy'n ei fwynhau fwyaf?

Beth rwyf wedi'i werthfawrogi dysgu amdano fwyaf?



Ydych chi'n synnu efallai i sylweddoli eich bod yn gwneud yn dda iawn mewn cyrsiau annisgwyl?


Efallai byddai'n werth meddwl hefyd am brofiad gwaith blaenorol a beth roeddech chi'n ei hoffi fwyaf - a lleiaf - amdano. Pa elfennau byddech chi'n hoffi eu cynnwys mewn swydd yn y dyfodol? Cadwch gofnod o'ch meddyliau.





# EICH CYMUNED YN Y BRIFYSGOL

Mae Prifysgol Abertawe'n cynnig amrywiaeth eang o gymdeithasau myfyrwyr y gallwch chi gymryd rhan ynddynt. Mae'n creu argraff dda iawn ar gyflogwyr pan fydd myfyriwr wedi neilltuo amser i gymryd rhan yn ei gymuned leol, sef eich prifysgol a'ch cymdeithasau. Mae mwy o wybodaeth yma: **Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe (swansea-union.co.uk)**



Cysylltwch â chyn-fyfyrwyr. Mae cynifer o gyn-fyfyrwyr/raddedigion sy'n fodlon helpu myfyrwyr eraill am eu bod wedi bod yn yr un sefyllfa â chi. Gallwch chi gysylltu â nhw drwy dudalen LinkedIn Prifysgol Abertawe. Ddim yn siŵr beth yw hynny?

Gall y Tîm Cyflogadwyedd helpu, neu gofynnwch i ni a oes gennym gysylltiadau mewn sectorau neu gwmnïau sydd o ddiddordeb i chi.

# EWCH I DDIGWYDDIADAU GYRFAOEDD



Nawr rydych chi'n dechrau ymgartrefu yn y brifysgol a meithrin perthnasoedd newydd a chysylltu â phobl. Eich cam nesaf yw dechrau mynd i ddigwyddiadau gyrfaoedd a chysylltu â chyflogwyr. Bydd hyn yn eich helpu i ddechrau cael syniadau am bethau sy'n swnio'n ddiddorol - neu beidio.

Os yw sector neu swydd yn ennyn eich diddordeb, gallwch chi dreulio amser yn dysgu ychydig mwy amdano, yn gwneud ymchwil ar-lein, yn sgwrsio â phobl sy'n gweithio yn y maes hwnnw.

Os nad oes dim byd yn dal eich sylw mewn sesiwn benodol, meddyliwch am resymau posib dros hynny. Beth mae hyn yn ei ddweud wrthych chi am eich blaenoriaethau, eich cymhellion a'ch nodau chi?

Cofrestrwch ar wefannau fel - www.brightnetwork.co.uk a www.ratemyplacement.co.uk



## SESIYNAU CVS A LLYTHYRON EGLURHAOL



Angen diweddaru eich CV neu'ch llythyr eglurhaol?

Dewch i un o'n sesiynau galw heibio lle gallwn ni eich helpu i lunio CV, adolygu un sydd gennych chi eisoes neu hyd yn oed gwirio eich sillafu! Cofiwch gadw golwg ar ein tudalennau Cyflogadwyedd ar Canvas am awgrymiadau defnyddiol ar gyfer CV.

Cofiwch, efallai mai eich CV fydd yr argraff gyntaf fydd gan gyflogwr amdanoch chi, felly mae'n bwysig ei fod yn ddarlun cyflawn ohonoch chi a'ch cyflawniadau. Hyd yn oed os ydych chi'n meddwl nad oes gennych ddim i'w roi ar CV, dewch i siarad â ni yn y tîm a gallwn ni eich helpu i roi cynnig ar un!

## CAREER SET

MAE CAREER SET BELLACH AR GAEL!
Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn i: Wella eich CV
Teilwra eich CV i rôl benodol Gwella eich llythyr eglurhaol



Ewch i careerset.com/swansea a mewngofnodi gan ddefnyddio eich e-bost myfyriwr.

## GWEFAN CYFLOGADWYEDD

Wyddech chi fod gennym dudalen gyflogadwyedd ar wefan Prifysgol Abertawe?

Mae'r canlynol ar gael ar ein gwefan:
**Sgwrsio Byw:** Hoffech chi siarad ag ymgynghorydd gyrfaoedd? Eisiau gofyn cwestiynau am geisiadau am swyddi, profiad gwaith ac interniaethau a/neu beth i'w wneud ar ôl eich gradd? Gallwch ddefnyddio ein gwasanaeth sgwrsio byw bob dydd Gwener rhwng 1.30pm a 3.30pm.
**Ein gwasanaethau:** Gallwch weld manylion diweddaraf am y gwasanaethau gallwn eu cynnig



# PROFIAD GWAITH

Ar ôl i chi lunio'ch CV, beth am ddechrau meddwl am brofiad gwaith? Mae pob math o brofiad gwaith yn ddefnyddiol, boed hynny'n swydd ran-amser, gwaith yn y gwyliau, cysgodi rhywun mewn sector sydd o ddiddordeb i chi neu interniaeth ar-lein.

Peidiwch â thanbrisio'r manteision gallech eu cael o unrhyw brofiad a faint bydd hynny o ddiddordeb i ddarpar gyflogwr. Gallech chi fod wedi meithrin sgìl sy'n uniongyrchol berthnasol, efallai ei fod wedi dangos eich parodrwydd i weithio'n galed neu gall fod wedi cynnig tystiolaeth amlwg o'ch cymhelliant a'ch diddordeb yn ei sector.

Dilynwch ni ar Instagram yn @FHSSEmployability a rhoi cipolwg ar y gwefannau sydd wedi'u rhannu!

# GWIRFODDOLI

Yma ym Mhrifysgol Abertawe, mae gennym gysylltiadau cadarn â'n helusen Discovery.

Mae Discovery SVS yn elusen dan arweiniad myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe sy'n rheoli amrywiaeth eang o brosiectau gwirfoddoli.
Mae gwirfoddoli gyda Discovery yn ffordd wych o gwrdd â ffrindiau newydd, meithrin sgiliau newydd a gwneud gwahaniaeth i'r gymuned leol. Mae gwirfoddoli'n edrych yn wych ar eich CV ac mae'n gallu gwella eich lles ond yn bennaf oll mae'n gallu bod yn hwyl! A gall unrhyw fyfyriwr neu aelod o staff Prifysgol Abertawe wirfoddoli gyda ni: Discovery - Prifysgol Abertawe

Cymerwch ran yng ngwaith Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach De-orllewin Cymru sy'n gweithio gyda disgyblion ysgol, teuluoedd ac oedolion o ardaloedd sydd yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gâr a Sir Benfro. **Ymestyn yn Ehangach - Prifysgol Abertawe**. Mae'n wych am gael profiad addysgu neu weithio gyda phobl ifanc.

# INTERNIAETHAU RHITHWIR A CHYRSIAU AR-LEIN

Gallwch feithrin dealltwriaeth a sgiliau ychwanegol yn eich sector o ddewis drwy gwblhau interniaeth rithwir neu gwrs ar-lein byr. Gallwch gofrestru i www.theforage.com a chymryd rhan mewn interniaeth rithwir - maen nhw am ddim a fyddan nhw ddim yn cymryd amser hir ond yn rhoi profiad ychwanegol i chi y gallwch ei ychwanegu at eich CV.

Ydych chi wedi meddwl hefyd am wneud cwrs byr ar-lein? Mae'r rhain ar gael mewn pynciau gwahanol a does dim rhaid iddyn fod yn gysylltiedig â'ch gradd. Mae'n dangos i gyflogwr pa mor ragweithiol ydych chi wrth feithrin eich dysgu a'ch sgiliau, gan ddangos mentergarwch, brwdfrydedd a sgiliau trefnu.

Mae darparwyr cyrsiau a awgrymir yn cynnwys **www.futurelearn.com** a **https://www.coursera.org/** ac mae nifer o brifysgolion yn cynnal Massive Open Online Courses (MOOCs), sydd ar gael am ddim - **https://www.mooc.org/**

***Awgrymiadau yn unig yw'r rhain ac nid yw'r Tîm Cyflogadwyedd yn derbyn unrhyw atebolrwydd**



Gallwch hefyd ystyried micro-gymwysterau, rhagor o wybodaeth yma:

**https://www.prospects.ac.uk/postgraduate-study/masters-degrees/microcredentials.**



# TEITHIO

Mae llawer o fyfyrwyr yn treulio blwyddyn ar ôl astudio'n meithrin rhagor o sgiliau a phrofiad mewn gwlad wahanol. Ffordd dda o wneud hyn a datblygu eich CV ar yr un pryd yw gwirfoddoli fel myfyriwr - **https://www.workingabroad.com/typer/student-volunteering**.

# DOD O HYD I GYFLEOEDD

Mae llawer o wefannau gwahanol lle gallwch chi chwilio am rolau i raddedigion ac rydyn ni wedi rhestru ein ffefrynnau isod. Cofiwch ddefnyddio'r cysylltiadau rydych chi wedi'u meithrin, gan gynnwys LinkedIn a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Abertawe. Os oes gennych gwmni mewn golwg, beth am fynd yn uniongyrchol i'w wefan.

- BRIGHT NETWORK
- CIVIL SERVICE
- GOV.UK
- NHS JOBS
- PROSPECTS

Gall myfyrwyr rhyngwladol ddefnyddio **www.studentcircus.com** i gael help wrth chwilio am gyflogwyr sy'n gallu cynnig nawdd a fisa.

# ASIANTAETHAU RECRIWTIO



Fel mae pawb yn gwybod, gall dod o hyd i gyflogaeth ar gyfer graddedigion fod yn broses hir. Gallai asiantaethau recriwtio fod yn un ffordd o'ch helpu gyda hynny gan fod ganddynt berthnasoedd â'r sefydliadau a'r busnesau rydych chi'n ceisio cysylltu â nhw. Yn ogystal â hyn, gallan nhw gynnig gwybodaeth arbenigol am y farchnad swyddi yn y meysydd hyn. Cofiwch fod asiantaethau recriwtio yn gweithio i'r cyflogwr ac nid i chi, felly er eu bod yn gysylltiadau defnyddiol, gwnewch yn siŵr eu bod yn eich cynnig am y rolau sy'n iawn i chi. Mae'n bosib na fydd y llwybr hwn yn addas i bawb ac ni allwn argymell asiantaethau o angenrheidrwydd, ond efallai y byddai'n werth archwilio ymhellach. Gallwch gael mwy o wybodaeth yma - **https://www.prospects.ac.uk/careers- advice/getting-a-job/recruitment-agencies**

# SUT MAE EICH SGILIAU CYFWELIAD?

Oes angen gloywi eich sgiliau cyfweliad, neu hoffech chi gael help gyda chanolfannau profi gallu ac asesu? Mae llwyth o wybodaeth ar gael, gan gynnwys cymorth drwy ffug gyfweliadau a ffug ganolfannau asesu gyda'r Tîm Cyflogadwyedd neu gyflogwyr lleol. Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch -
**careers-humanitiesandsocialsciences@abertawe.ac.uk.**

Mae gennym nifer o blatfformau sy'n rhoi cyfle i chi ymarfer eich sgiliau hefyd:

**https://go.shortlister.com/marketplace/swanseauni**
**https://ecareersgrad.co.uk/university-partners/swansea-ecareersgrad**





# CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Neilltuwch amser i edrych ar eich presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol a gwirio a yw'n ddeniadol i gyflogwyr. Ar eich taith gyflogadwyedd, byddwch yn eich lansio eich hun i fyd gwaith proffesiynol, felly byddai'n drueni pe bai rhai o'ch postiadau blaenorol yn y cyfryngau cymdeithasol yn rhoi'r argraff anghywir ohonoch chi! Rydyn ni'n gwybod bod cyflogwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol wrth lunio barn am ddarpar weithwyr.



**I dacluso eich proffil yn y cyfryngau cymdeithasol:**

- Addaswch eich gosodiadau preifatrwydd - os nad ydych chi am i ddarpar gyflogwyr allu gweld eich proffiliau, gwnewch yn siŵr bod y gosodiadau ar breifat!
- Os yw eich proffiliau'n gyhoeddus, dylech chi ddileu unrhyw bostiadau a allai niweidio eich cyfleoedd o lwyddo, e.e. lluniau gwyllt o wyliau neu bostiadau sy'n cynnwys sylwadau dadleuol neu regfeydd.
- Meddyliwch a yw enw eich proffil yn edrych/yn swnio'n broffesiynol - os nad yw newidiwch ef.


# LINKEDIN A SGILIAU DIGIDOL

Ar hyn o bryd, mae 825 miliwn o bobl yn defnyddio LinkedIn (2023) Hwn yw'r platfform proffesiynol mwyaf blaenllaw ac mae'n tyfu bob blwyddyn, gan gynnwys yn y farchnad swyddi. Os nad ydych chi wedi creu cyfrif LinkedIn eisoes, mae'n hen bryd gwneud hynny. Ddim yn siŵr sut neu beth ydyw? Os felly, darllenwch ein canllawiau ac awgrymiadau defnyddiol, mae rhai ohonyn nhw yn ein llawlyfr myfyrwyr. Cysylltwch â'r tîm Cyflogadwyedd, gallwn eich helpu i ddeall sut i fanteisio i'r eithaf ar LinkedIn!

Y dyddiau hyn, mae cyflogwyr yn galw fwyfwy am sgiliau digidol. Yn ogystal â defnyddio mwy o blatfformau fel Zoom a Teams i gysylltu'n rhithwir, mae llawer o swyddi yn aml yn gofyn am sgiliau codio ynghyd â Microsoft Office. Mae cyflogwyr yn disgwyl i fyfyrwyr deimlo'n gyfforddus yn siarad ac yn rhyngweithio'n rhithwir yn Zooms neu Teams, felly mae'n werth ymarfer y sgiliau hyn os bydd gennych gyfarfodydd gyda'r tîm Cyflogadwyedd neu gyda'ch cymorth academaidd. Isod ceir dolenni defnyddiol i'ch helpu i ddatblygu eich sgiliau digidol.

**Sgiliau a Hyfforddiant Digidol - Prifysgol Abertawe**
**www.codefirstgirls.com**





# BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT A BLWYDDYN DRAMOR



Os ydych yn bwriadu gwneud Blwyddyn mewn Diwydiant, bydd angen i chi gwblhau'r Modiwl Cyflogadwyedd MN2000 neu MN2500. Cynhelir y modiwl hwn ddwywaith y flwyddyn, yn semester 1 a semester 2 yn ystod y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn, a'i nod yw eich cefnogi yn y broses recriwtio wrth geisio am leoliad gwaith. Am ragor o wybodaeth, gallech chi fynd i'n sesiynau galw heibio am y Flwyddyn mewn Diwydiant. Byddwch chi'n cwblhau eich Blwyddyn mewn Diwydiant ar ôl eich ail flwyddyn ac yna, ar ôl blwyddyn yn gweithio, byddwch yn dychwelyd i'r brifysgol i gwblhau eich trydedd flwyddyn a'ch blwyddyn olaf.

Os ydych chi'n bwriadu treulio Blwyddyn Dramor, byddwch chi'n gwneud hyn yn eich trydedd flwyddyn. Fodd bynnag, bydd angen i chi fodloni meini prawf cymhwyso i ymgymryd â'r Flwyddyn Dramor. Beth am ddod i'n sesiwn galw heibio am Astudio Dramor i ddysgu rhagor, neu gallwch chi gysylltu â thîm astudio dramor Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol: studyabroad-fhss@abertawe.ac.uk.

**Bydd angen i chi newid eich llwybr ar gyfer y Flwyddyn mewn Diwydiant a'r Flwyddyn Dramor, mae hyn yn rhoi gwybod i ni yr hoffech chi gymryd rhan yn un o'r rhaglenni hyn. Dylech chi wneud hyn cyn gynted â phosib. Mae'n hawdd gwneud hyn a gallwch chi newid eich rhaglen drwy siarad â'r tîm Cymorth Myfyrwyr:**
**studentsupport-management@swansea.ac.uk**
**studentsupport-cultureandcom@swansea.ac.uk**
**studentsupport-law@swansea.ac.uk**
**studentsupport-socialsciences@swansea.ac.uk**

Mae rhai meysydd pwnc yn cynnig Semester Dramor hefyd. Byddech chi'n astudio dramor yn ystod ail semester yr ail flwyddyn. Cysylltwch â ni i wybod a yw eich maes pwnc yn cynnig y Semester Dramor.

Mae cyfleoedd i dreulio semester dramor yn ffordd wych o gael profiad diwylliannol a rhyngwladol ochr yn ochr â'ch astudiaethau. Fel arfer mae'r rhaglenni'n para rhwng dwy ac wyth wythnos ac yn rhoi cyfle i chi gael profiad diwylliannol, gwirfoddoli a/neu academaidd mewn gwlad arall. Mae cyllid ar gael tuag at rai o'r costau cysylltiedig ac mae cymorth ychwanegol ar gael ar gyfer myfyrwyr sy'n bodloni meini prawf Ehangu Cyfranogiad. Os hoffech chi wybod rhagor, cysylltwch â'r tîm astudio dramor canolog yn **studyabroad@abertawe.ac.uk**










# DYSGU IAITH



Gall dysgu iaith roi mantais go iawn i chi mewn marchnad gystadleuol a chan fod busnes yn farchnad fwyfwy byd-eang, gall fod yn sgìl defnyddiol. Mae angen ymroddiad a dyfalbarhad i ddysgu iaith, felly hyd yn oed os gallwch chi ddysgu'r sylfeini, bydd yn dangos i gyflogwr bod gennych sgiliau fel cyfathrebu, a gwrando, ymroddiad a dyfalbarhad. Mae llawer o apiau am ddim ar gael a allai eich helpu i feistroli lefel sylfaenol iaith.

# ANELU AM EICH NODAU

**Pa ffordd? Beth yw fy nod?**
Dechreuwch ofyn cwestiynau i chi'ch hun i'ch helpu i ddod o hyd i gyfeiriad - defnyddiwch yr amser hwn i'ch deall CHI eich hun yn iawn!



Beth yw eich cymhellion a'ch gwerthoedd, beth sy'n eich cael chi allan o'r gwely yn y bore? Pam dewisoch chi eich cwrs? Beth yw eich nod yn y pen draw a sut byddwch chi'n ei gyrraedd? Pa sgiliau rydych chi wedi'u meithrin a pha brofiadau a gawsoch yn y flwyddyn ddiwethaf? Sut mae'r rhain yn cysylltu â'ch gyrfa yn y dyfodol?

Oes gennych ddiddordeb mewn treulio Blwyddyn mewn Diwydiant neu Flwyddyn yn Astudio Dramor? Beth rwyf wedi'i fwynhau am fy nghwrs eleni a pham? Beth nad ydw i wedi'i fwynhau am fy nghwrs? Beth hoffwn i wneud rhagor ohono efallai yn fy ail flwyddyn? Sut bydda i'n llwyddo i wneud hyn?

Efallai bydd yn ddefnyddiol i chi gwblhau dadansoddiad SWOT a llunio cynllun datblygu personol i'ch helpu i ateb rhai o'r cwestiynau hyn. Fodd bynnag, mae'r rhain yn gwestiynau dylech chi eu gofyn i chi'ch hun drwy gydol eich blwyddyn. Gallwch chi ddod o hyd i ddadansoddiad SWOT yn eich Llawlyfr Cyflogadwyedd sydd ar gael ar yr Hybiau Cyflogadwyedd yn Canvas.





# ASTUDIAETHAU PELLACH


Efallai y bydd angen i chi barhau â'ch astudiaethau i gael cymwysterau proffesiynol neu efallai yr hoffech chi ymchwilio ymhellach i bwnc sydd wedi ennyn eich diddordeb. Dyma bedwar cwestiwn y gallwch eu gofyn i chi'ch hun am astudio ôl-raddedig:



1. Beth yw'ch rheswm dros astudio'r cwrs rydych chi wedi'i ddewis?
2. Pam mae gwneud y cwrs hwn yn bwysig i chi?
3. Pa sgiliau/gwybodaeth nad ydyn nhw gennych eisoes bydd y cwrs hwn yn eu rhoi i chi?
4. Sut bydd yn gwella eich cyflogadwyedd?

Beth am drefnu apwyntiad gydag aelod o'r tîm a dysgu mwy am sut i gyflwyno cais am astudiaethau ôl-raddedig? Mae llawer o wybodaeth ar gael hefyd yn www.prospects.ac.uk.

# ASTUDIO ÔL-RADDEDIG: GWELLA'CH RHAGOLYGON



Efallai eich bod yn cwblhau tystysgrif ôl-raddedig i'ch gwella eich hun a meithrin gwybodaeth fanwl neu sgìl mewn maes penodol, neu efallai eich bod yn chwilio am hwb yn eich gyrfa. Efallai fod gennych flynyddoedd o brofiad eisoes ond ddim yn siŵr sut mae hyn yn berthnasol i'ch rolau yn y dyfodol. Gallwn ni eich helpu i gynllunio eich gyrfa a rhoi camau gweithredu ar waith. Trefnwch apwyntiad personol a gofyn am help gyda rheoli gyrfa (sylwer nad yw'r sesiynau hyn yn helpu gyda CVs a llythyrau eglurhaol).

Beth bynnag yw'r rheswm, gallwn ni eich helpu i wella'ch cyflogadwyedd drwy gydol eich amser gyda ni ym Mhrifysgol Abertawe. Rydyn ni'n cynnal nifer o ddigwyddiadau a chyfleoedd yn ystod y flwyddyn, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw mewn cysylltiad â ni a galwch heibio eich Hyb Cyflogadwyedd agosaf i ddweud helô!

- Dewch draw i'n Hybiau Cyflogadwyedd - mae un yn y Techniwm Digidol ar Gampws Singleton
- ac un yn yr Ysgol Reolaeth ar Gampws y Bae. Dewch i ddweud helô, mae croeso bob amser i fyfyrwyr newydd!
- Ewch i'n tudalennau Cyflogadwyedd yn Canvas i weld beth sydd gennym i'w gynnig yn eich Cyfadran a sicrhau bod gennych fynediad at ein holl gymorth.
- Lawrlwythwch ein llawlyfr Cyflogadwyedd i fyfyrwyr neu codwch gopi o un o'n Hybiau.
- Ymunwch â'n tudalen Instagram - rydyn ni'n hysbysebu'r holl ddigwyddiadau Cyflogadwyedd a'r holl swyddi rydyn ni'n gwybod amdanynt yma.
- Cofrestrwch gyda Job Teaser - dyma'r bwrdd swyddi Cyflogadwyedd canolog sy'n hysbysebu swyddi i fyfyrwyr.



## PERFFEITHIWCH EICH SGILIAU RHEOLI AMSER


Mae astudio ar raglen ôl-raddedig yn golygu ymgymryd â llawer o dasgau sy'n cymryd amser, felly gall llunio cynllun a deall pryd rydych chi ar eich mwyaf effeithiol eich helpu i reoli'ch amser. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi'n fawr ymgeiswyr sy'n myfyrio am eu sgiliau ac mae dangos eich gallu i reoli amser yn un o'r rhain, ac mae hefyd yn eich galluogi i fanteisio i'r eithaf ar eich cyfle ôl-raddedig.



Gallwch gael cyngor defnyddiol yma - **https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/remote-learning-guide/learning-online/time-mangement.**

## YDYCH CHI'N EGIN ENTREPRENEUR?

Mae mwy a mwy o fyfyrwyr yn sefydlu eu busnesau eu hunain neu'n cynnal menter 'ar yr ochr'. Dyma rywbeth y gallech ei archwilio gyda'r tîm Mentergarwch a chael cymorth a chefnogaeth.





**Enterprise@abertawe.ac.uk**

## LLES AC IECHYD



Wrth i chi fynd i'r afael â hyn i gyd, rhaid i chi gofio gofalu amdanoch 'chi' a'ch lles eich hun. Mae ffyrdd o wneud hyn yn cynnwys cadw at drefn lesol, sicrhau eich bod yn cael digon o gwsg ac ymarfer corff a'ch bod yn bwyta'n iach. Ceisiwch beidio â'ch cymharu eich hun ag eraill oherwydd bod pobl yn gwneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol ac mae'n hawdd meddwl bod pobl eraill yn ymdopi'n well na chi. Ceisiwch ganolbwyntio ar eich nodau a'r hyn mae angen i chi ei wneud!

Cofiwch fod llawer o gymorth ar gael i chi yn y Brifysgol - dim ond i chi ofyn amdano.

## CADWCH DDATBLYGU A THYFU



Cadwch feithrin y rhwydweithiau a'r cysylltiadau LinkedIn hynny. Dyma'r amser i ddechrau adeiladu eich proffil a chwilio am gyfleoedd. Gwnewch eich ymchwil i'r rolau a'r sectorau sydd o ddiddordeb i chi a siarad â chyflogwyr i feithrin cysylltiadau. Ceisiwch beidio â disgwyl gormod, ond mae bod yn chwilfrydig yn dda a bydd yn dangos eich diddordeb. Cofrestrwch ar wefannau megis **www.brightnetwork.co.uk.**

## GRAD CONNECT AC ALUMNI

**Cysylltwch â chyn-fyfyrwyr** - mae llawer o gyn-fyfyrwyr/raddedigion sy'n fodlon helpu myfyrwyr eraill gan eu bod wedi bod yn yr un sefyllfa â chi. Gallwch gysylltu â nhw drwy LinkedIn neu Swansea Uni Connect - ddim yn siŵr beth yw hynny? Gall y tîm Cyflogadwyedd helpu, neu gofynnwch i ni a oes gennym gysylltiadau mewn unrhyw sectorau neu gwmnïau sydd o ddiddordeb i chi!




**https://swanseauniconnect.com** - Cofrestrwch gyda Swansea Uni Connect yma!


## HYNT GRADDEDIGION

Cyn i chi adael y Brifysgol, gwnewch yn siŵr bod gennym eich manylion cyswllt cywir, fel y gallwch fod yn rhan o'r darlun a helpu i lywio dyfodol eich prifysgol ac addysg uwch. Rhagor o wybodaeth am yr arolwg Hynt Graddedigion - **https://www.graduateoutcomes.ac.uk.**





# DIWEDD Y DAITH



Pob lwc! Cadwch mewn gysylltiad. Gallwn ni barhau i gynnig cymorth cyflogadwyedd i chi, ac os hoffech gymryd rhan mewn gweithgareddau i fyfyrwyr, byddem yn gwerthfawrogi'ch mewnbwn yn fawr.

Sganiwch y côd QR nawr i drefnu apwyntiad gyda ni, neu gallwch e-bostio: **careers-humanitiesandsocialsciences@abertawe.ac.uk**